# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 25 Hydref 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Sawl gwaith dros y chwe mis diwethaf y mae'r Prif Weinidog wedi cynnal cyfarfodydd naill ai gyda Gweinidogion o'r Weinyddiaeth Amddiffyn neu gyda'r Uwch Wasanaeth Sifil ynghylch yr Academi Hyfforddiant Amddiffyn yn Sain Tathan. (WAQ56619)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Nid wyf wedi cynnal cyfarfodydd â Gweinidogion y Weinyddiaeth Amddiffyn nac Uwch Weision Sifil ond mae Dirprwy Brif Weinidog Cymru wedi gwneud hynny, fel y nodir yn ei ymateb i'ch cwestiwn WAQ 56618.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion costau datblygu cyfredol swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llandudno, o ran ffioedd proffesiynol, dodrefn rhydd ac offer TG, gyda ffigur ar wahân ar gyfer pob agwedd. (WAQ56634)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Rydym yn cytuno ar y cyfrifon terfynol gyda'n hasiantau rheoli ar hyn o bryd. Y costau ar hyn o bryd yw: Ffioedd Proffesiynol (ers y cyfnod Oedi ac Adolygu) - £1,421,219; Dodrefn Meddal - £2,138,839; a TG - £1,382,355 (i gyd ac eithrio TAW). Gallai'r rhain gael eu newid ar adeg cytuno ar y cyfrifon terfynol yn ddiweddarach eleni.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**: Pa mor hir y rhoddir cyllid ar gyfer y rhaglen Prentisiaeth Uwch mewn Rhagoriaeth Chwaraeon yng Nghymru. (WAQ56630)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Beth yw'r gyllideb ar gyfer y rhaglen Prentisiaeth Uwch mewn Rhagoriaeth Chwaraeon yng Nghymru (WAQ56631)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Faint o brentisiaid sydd ar y rhaglen Prentisiaeth Uwch mewn Rhagoriaeth Chwaraeon yng Nghymru. (WAQ56632)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Cymhwyster chwaraeon yw Uwch Brentisiaeth Rhagoriaeth mewn Chwaraeon i bobl ifanc sydd â'r potensial realistig i ragori ym maes eu chwaraeon drwy gystadlu yn rhyngwladol neu drwy gael contract proffesiynol.

Mae'r Uwch Brentisiaeth yn cyfuno rhaglen addysg hyblyg â llwybr hyfforddi a datblygu cenedlaethol strwythuredig ym mhob maes chwaraeon, tra'n paratoi athletwyr am yrfa ar ôl chwaraeon. Cynlluniwyd yr Uwch Brentisiaeth i ddiwallu anghenion pobl ifanc sydd â'r potensial realistig i ragori yn eu maes ac sy'n ceisio perfformio ar y lefel uchaf fel eu prif nod gyrfaol.

League Football Education yw'r unig ddarparwr sy'n cyflwyno'r Uwch Brentisiaeth yng Nghymru. Mae 20 o brentisiaid yn dilyn y rhaglen Rhagoriaeth mewn Chwaraeon yng Nghymru. Mae pob un yn ei ail flwyddyn. Dim ond ym maes pêl-droed mae'r prentisiaethau ar gael.

Nid yw APADGOS yn dynodi cyllidebau penodol i bob fframwaith prentisiaeth. Yn seiliedig ar y data sydd gennym, gwerth posibl y gellid ariannu y garfan bresennol o ddysgwyr i gwblhau'r brentisiaeth yw tua £277,000. Mae hyn yn ystyried costau sefydlu, darparu a chyflawni dysgu (gan dybio y caiff pob cymhwyster ei gyflawni).

Nid yw dysgwyr rhagoriaeth mewn chwaraeon yn gyflogedig. O fis Awst 2011 pan fydd ein trefniadau contractio â darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn mynd rhagddynt byddwn ond yn ariannu dysgwyr cyflogedig.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl gwaith dros y chwe mis diwethaf y mae'r Gweinidog wedi cynnal cyfarfodydd naill ai gyda Gweinidogion o'r Weinyddiaeth Amddiffyn neu gyda'r Uwch Wasanaeth Sifil ynghylch yr Academi Hyfforddiant Amddiffyn yn Sain Tathan. (WAQ56618)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Cefais ddau gyfarfod o'r fath:
- 11 Mai 2010: cyfarfod Grŵp Llywio Gweinidogion ar Gynllun Datblygiad Sain Tathan
- 28 Medi 2010: cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A hithau'n debygol y bydd yr adroddiad GRIP sy'n cael ei wneud gan Network Rail 9 mis yn hwyr yn cael ei gyflawni, pa effaith a gaiff hynny ar fynd â'r dewisiadau rhagddynt yng ngoleuni unrhyw gyfyngiadau amser a allai fod ynghlwm wrth y cyllid Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol sydd wedi'i nodi ar gyfer y prosiect hwn. (WAQ56635)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Mae gwariant cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn cael ei ystyried yng ngoleuni cyhoeddiad yr Adolygiad o Wariant. Caiff cyllidebau eu nodi yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar 17 Tachwedd.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i wella'r ymwybyddiaeth o glefyd niwmococol. (WAQ56620)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y GIG yng Nghymru i sicrhau diagnosis a thriniaeth gynnar o glefyd niwmococol. (WAQ56621)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog yn trefnu rhaglen addysg wedi'i strwythuro i sicrhau ymwybyddiaeth o glefyd niwmococol a'i atal drwy frechu (WAQ56622)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o lid yr ymennydd ymysg pobl ifanc, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar wedi dosbarthu DVD o'r enw 'Meningitis - Know the Signs' i bob ysgol uwchradd, ysgol annibynnol a choleg Addysg Bellach yng Nghymru.
Caiff ymwybyddiaeth ei godi a chanfyddir clefyd niwmococol yn gynnar drwy'r rhaglenni tymhorol imiwneiddio rhag y ffliw ac imiwneiddio niwmococol yn bennaf, gan fod y grwpiau risg uchel yn debyg yn gyffredinol. Gweithwyr iechyd proffesiynol lleol sydd yn y sefyllfa orau i godi ymwybyddiaeth o'r afiechyd drwy drafod yn hyddysg ag unigolion yr argymhellir eu bod yn cael y brechlyn. Bydd Grŵp Imiwneiddio Cymru yn edrych ar ddigonolrwydd cwmpas y rhaglen frechu yn unol ag argymhellion a thargedau Llywodraeth y Cynulliad. Bydd yn nodi enghreifftiau o arfer gorau y gellir eu rhannu ledled Cymru ac yn ystyried unrhyw gamau ychwanegol y bydd angen eu cymryd o bosibl.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd yn y GIG yng Nghymru i wella mynediad i driniaeth o ansawdd ym mhob lleoliad ar gyfer oedolion hyn ag HIV. (WAQ56623)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa gamau sydd ar waith i gynnig cefnogaeth emosiynol ac i atal ynysu cymdeithasol ar gyfer cleifion hyn sydd ag HIV, yn enwedig ar y cyd â mudiadau a gwasanaethau sy'n delio'n rheolaidd â'r grwp oed demograffig hwn. (WAQ56624)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Mae ein llwybr gofal cenedlaethol 'Darparu ar gyfer anghenion pobl gyda HIV/AIDS yng Nghymru', a gyhoeddwyd ym mis Awst 2009, yn anelu at sicrhau bod pob claf yr effeithir arno - gan gynnwys oedolion hŷn - a'u gofalwyr a'u teuluoedd, yn gallu cael triniaeth a gwasanaethau gofal arbenigol HIV.

Bydd pob unigolyn gyda HIV sydd wedi gofyn am gymorth yn cael asesiad a gallai'r gwasanaethau a ddarperir - yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad - gynnwys cymorth a chwnsela emosiynol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd, gyda Byrddau Iechyd Lleol, i fonitro'r nifer sy'n cael eu brechu yn y GIG yng Nghymru a pha gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i hyrwyddo'r GIG yng Nghymru i weithwyr meddygol proffesiynol fel lle deniadol i weithio. (WAQ56633)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Sefydlwyd bwrdd Rhaglen Moderneiddio'r Gweithlu er mwyn sicrhau bod cynlluniau gweithlu'r GIG yn adlewyrchu anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae Grŵp Adolygu Meddygon Iau wedi datblygu nifer o fentrau er mwyn gwella delwedd Cymru i ddarpar staff meddygol a lleihau swyddi gwag. Mae cymhellion i feddygon presennol graddfa ganol a meddygon graddfa ganol newydd wedi'u cytuno, gan gynnwys arian ar gyfer cyrsiau hyfforddi a chymwysterau proffesiynol, cefnogaeth i'r meddygon hyn yn y BILlau a chymorth â llety ar gyfer newydd-ddyfodiaid o dramor. Mae'r Mae'rMae Deoniaeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i wella rhaglenni hyfforddiant meddygol i feddygon iau yng Nghymru.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella dibynadwyedd labeli cynnyrch o Gymru yn y sector arlwyo. (WAQ56627)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

Food labelling rules are a matter within the EU's competence. In the case of catering, it is a requirement that any information provided by the catering sector to the final consumer must be accurate and honest. Local Authority enforcement authorities have powers to take appropriate action under a number of pieces of legislation, namely: the Food Safety Act 1990; the Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008 and Article 16 of EC 178/2002.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud at gyflawni ei tharged i blannu 100,000 hectar o goetir newydd. (WAQ56628)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I launched the Glastir woodland creation grant on 21 October in order to encourage landowners, especially farmers, to create new woodlands on their land in support of the Assembly Government's target of 100,000 hectares of new planting over the next 20 years. In addition, it supports the commitment to create more native and mixed woodland as set out in Woodlands for Wales, the Welsh Assembly Government's woodland strategy. Forestry Commission Wales have given priority to the development of this bespoke element of Glastir, Wales's new sustainable land management scheme and offers grants to landowners to create new woodlands on their land.

In addition, they have undertaken and produced woodland opportunities mapping which provides an area of 1.2 million hectares across Wales which are suitable for Glastir woodland creation of which 700,000 hectares are suitable and eligible for reduced consultation processes which should allow the administration of eligible applications to be approved faster. The grants will provide support for the costs of creating new woodlands as well as income foregone payments. They will be administered by Forestry Commission Wales until 1 January 2013 when responsibility for delivery will transfer to the Glastir Team.

Forestry Commission Wales are also currently piloting the 'Woodland Carbon Code' which will look into the potential benefits of carbon trading schemes which pay landowners for storing carbon. A pilot is being run until April 2011 and through this they will be testing the Code with land owners and managers.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa reolau a rheoliadau sydd ar waith ynghylch defnyddio gwastraff dynol fel gwrtaith yng Nghymru ac a yw'r arfer hwn yn cael ei ganiatáu mewn unrhyw ffordd. (WAQ56629)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The use of human waste as fertiliser is not prohibited, but all use is heavily regulated. There are a number of rules and regulations in place that would need to be adhered to. They include the sludge regulations and cross compliance requirements.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw gamau sydd ar waith ar hyn o bryd i fynd i'r afael â phroblem gwahaniaethu ar sail HIV ym mhob gwasanaeth, yn enwedig tai cymdeithasol, tai gwarchod, cartrefi gofal a gwasanaethau iechyd. (WAQ56625)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Yn y Papur Gwaith Drafft ar Iechyd a Lles Rhywiol diweddar, rwyf eisoes wedi cynnig bod angen i ni ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethau sy'n gysylltiedig ag HIV. Er mwyn mynd â hyn yn ei flaen, mae angen i ni ddeall profiadau pobl o hyn ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae ymchwiliad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Equality of Opportunity Committee Inquiry into

Discrimination against People Living with HIV/AIDS by Healthcare Providers and Professionals, wedi canfod bod bwlch gwybodaeth rhwng tystiolaeth ffurfiol a thystiolaeth anecdotaidd. Mae fy swyddogion yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyswllt HIV Cymru Gyfan i gynnal asesiad o anghenion pobl sy'n byw gydag HIV o ran stigma a gwahaniaethu.

Mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai wedi cael canllawiau ar Ddyraniadau a Digartrefedd i sicrhau y caiff y rheini y mae angen iddynt symud am resymau meddygol a lles neu oherwydd eu rhywioldeb eu trin yn deg, heb unrhyw wahaniaethu. Caiff cymdeithasau tai eu rheoleiddio hefyd i sicrhau eu bod yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu goblygiadau.

Mae ein rhaglen Cefnogi Pobl yn ariannu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl a all fod yn wynebu anfantais neu wahaniaethu o ganlyniad i'w statws HIV.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil yn ddiweddar ar brofiad pobl sy'n ceisio cael gwasanaethau opsiynau tai. Bydd hyn yn cynnwys profiad cyplau o'r un rhyw a'r rheini sy'n dioddef o HIV/Aids.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw gamau sydd ar waith ar hyn o bryd i fynd i'r afael â phroblem homoffobia ym mhob gwasanaeth, yn enwedig tai cymdeithasol, tai gwarchod, cartrefi gofal a gwasanaethau iechyd. (WAQ56626)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Tachwedd 2010***

Mae Cynlluniau Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn cael eu datblygu gan y GIG yng Nghymru. Bydd y Cynlluniau hyn yn nodi sut y bydd pob bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â homoffobia gan gynnwys manylion am yr hyfforddiant a roddir i bob aelod o staff.

Mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai wedi cael canllawiau ar Ddyraniadau a Digartrefedd i sicrhau y caiff y rheini y mae angen iddynt symud am resymau meddygol a lles neu oherwydd eu rhywioldeb eu trin yn deg, heb unrhyw wahaniaethu. Caiff cymdeithasau tai eu rheoleiddio hefyd i sicrhau eu bod yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu goblygiadau.

Mae ein rhaglen Cefnogi Pobl yn ariannu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl a all fod yn wynebu anfantais neu wahaniaethu o ganlyniad i'w statws HIV.
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil yn ddiweddar ar brofiad pobl sy'n ceisio cael gwasanaethau opsiynau tai. Bydd hyn yn cynnwys profiad cyplau o'r un rhyw a'r rheini sy'n dioddef o HIV/Aids.